# visitwales.com
# Cynghorion da ar sut i greu cofnod da

Rhagfyr 2025

## 1.1 —Sut mae diweddaru'r wybodaeth amdana i ar visitwales.com?

Bydd angen ichi fewngofnodi ar https://rhestrucynnyrch.cymru i ddiweddaru manylion eich busnes, gan gynnwys y disgrifiad, y lluniau a'ch cyfleusterau.

Bydd angen eich ID Cyswllt, eich enw defnyddiwr a'ch cyfrinair. Gallwch lenwi pob rhan o'ch cofnod trwy fewngofnodi'n ddiogel heb help y Stiwardiaid Data, er eu bod wrth law rhag ofn y bydd angen eu help arnoch chi.

## 1.2 —Cymorth

Os oes gennych gwestiynau cyffredinol, cysylltwch â Stiwardiaid Data Croeso Cymru croesocymruhelp@nvg.net | 0330 808 9410 neu drwy sgwrs fyw.

**Os gwelwch broblem, dilynwch y camau hyn:**

**01**
Darllenwch y cofnod amdanoch chi ar y Rhestr Cynnyrch

**02**
Cysylltwch â'r Stiward Data gan ddefnyddio'r manylion cysylltu uchod

**03**
Bydd y Stiward Data'n ymchwilio i'r mater ac yn cael sgwrs â chi

**04**
Os nad oes modd ei datrys, bydd y Stiward Data'n nodi amgylchiadau'r broblem

**05**
Os yw'n fater newydd, bydd y Stiward Data'n anfon y manylion at brif swyddog data Croeso Cymru

1.3

## 01

Pan fyddwch wedi clicio ar y rhestr berthnasol rydych am ei diweddaru, bydd crynodeb o fanylion eich busnes yn cael ei arddangos. I ddiweddaru cofnod eich busnes, cliciwch ar Gweithredoedd > Golygu Cynnyrch. Byddwch nawr yn gallu cael mynediad at wahanol adrannau cofnod eich cynnyrch i wneud unrhyw ddiweddariadau neu ddiwygiadau sydd eu hangen. Bydd clicio ar unrhyw un o'r tabiau ar yr ochr chwith yn mynd â chi i'r meysydd perthnasol.

## 02


Os oes gennych fwy nag un busnes, bydd y rhain yn cael eu rhestru ar y brif dudalen. Cliciwch ar enw'r cofnod cynnyrch yr hoffech ei ddiweddaru. Neu gallwch ddefnyddio'r swyddogaeth 'Chwilio am Gynhyrchion' i ddod o hyd i'r cofnod yr hoffech ei ddiweddaru.

Bydd cynulleidfa'r wefan y mae'r rhestriad yn ymwneud â hi i'w gweld yn y cromfachau:

(Croeso Cymru) – rhestriad gwefan ymwelwyr Croeso Cymru

(Digwyddiadau Busnes Croeso Cymru) – rhestriad gwefan Meet in Wales

(Diwydiant Teithio Croeso Cymru) – rhestriad gwefan Diwydiant Teithio




## 03

Gofalwch eich bod yn llenwi pob adran fel bod eich busnes yn cael pob cyfle i ddenu sylw'ch cwsmeriaid posibl.

1.4

## 01

Gofalwch fod gennych y manylion diweddaraf wrth law a gwnewch yn siŵr eich bod yn llenwi popeth.

## 02

Gofalwch fod y ramadeg a'r sillafu yn gywir.

## 03

Rhowch yr wybodaeth bwysicaf ar dop eich cofnod a chofiwch enwi'ch tre/ardal/rhanbarth agosaf.

## 04

Byddwch yn gryno rhag i'r darllenydd golli diddordeb.

## 05

Gwell osgoi disgrifiadau fel trysorau cudd a bro hudol.

## 06

Am help/cyngor a chynghorion da ar sut i wneud y gorau o 'Frand Cymru':


http://bit.ly/CWcpWBc19

## 07

Mae geiriau allweddol effeithiol yn hanfodol ar gyfer Optimeiddio Peiriant Chwilio cryf. P'un a yw defnyddwyr yn chwilio ar Google, offer AI neu chwiliad mewnol safle. Rhowch yr allweddeiriau pwysicaf yn y disgrifiad byr, gan fod hyn yn cario'r pwysau mwyaf ar y dudalen. Yna ymgorfforwch dermau perthnasol ychwanegol yn naturiol yn y disgrifiad hir. Osgoi gorddefnyddio'r un geiriau neu clichés fel 'trysor cudd'.

## 08

Meddyliwch am y geiriau y byddai'ch cwsmeriaid yn chwilio amdanyn nhw neu well byth, gofynnwch i'ch hen gwsmeriaid sut y bydden nhw'n disgrifio'ch eiddo.



## 1.5 —Lluniau a fideos
## Sut i uwchlwytho lluniau a fideo

## 01

Dewiswch ffotograff ar draws o leiaf 1920 picsel wrth 1440 picsel a 12 Megabeit ar y mwyaf (bydd ffotograffau wedi'u tynnu ar ffôn symudol fel arfer yn iawn). Bydd y system yn newid eich ffotograff i'r maint cywir yn awtomatig. Edrychwch arno ar y sgrin i wneud yn siŵr ei fod yn iawn cyn ei gadw.

## 02

Ychwanegwch deitl sy'n disgrifio'r llun yn gywir gan y gallai Google ei ddefnyddio.

## 03

Gofalwch nad yw'r ffeil yn fwy na 4 megabeit. Mae'n arfer da defnyddio ffeil mor fach â phosibl.

## 04

Rhowch ffoto 'ar draws', nid 'ar i fyny'.


## 05

I ychwanegu delwedd newydd, cliciwch ar Gweithredoedd > Lanlwytho Cyfryngau Newydd. Wedyn byddwch yn cael neges yn gofyn ichi gadarnhau naill ai fod gennych yr hawlfraint i'r ddelwedd neu eich bod wedi cael caniatâd i'w defnyddio. Dim ond os ydych yn clicio ar 'Iawn' y gallwch fynd ymlaen i ychwanegu'r ddelwedd.

Wedyn gallwch glicio a llusgo eich ffeiliau delwedd (cliciwch a llusgo pob un o'r deg ffeil ddelwedd i'r un ffenestr) a chlicio ar 'Iawn'. Bydd hyn wedyn yn ychwanegu'r delweddau at y rhestr mewn un tro. Pan fyddwch wedi clicio 'Iawn' bydd y delweddau'n cael eu hychwanegu at eich cofnod. O yma gallwch newid trefn ymddangos y delweddau drwy glicio arnyn nhw a'u llusgo i'r drefn sydd ei hangen.

## 06

Caiff y 10 llun mawr cyntaf eu defnyddio. Defnyddiwch y llaw i lusgo ac aildrefnu'r lluniau fydd yn cael eu dangos ar Croeso Cymru. Meddyliwch am drefn y lluniau. Y llun y byddwch yn ei roi gyntaf yn eich rhestr o luniau fydd y cyntaf i gael ei weld ar y carwsél.




## 07

Os nad yw delweddau yn y fformat mawr ni fyddan nhw'n ymddangos ar eich cofnod ar y wefan.

## 08

Defnyddiwch y 10 llun rydych yn gallu'u cyhoeddi gan y byddan nhw'n helpu'ch gwestai/gwesteion i wneud eu penderfyniad, ac yn eu cadw ar eich cofnod. Peidiwch â rhoi mwy nag un llun o'r un peth.

## 09

Dewiswch y fideo rydych am ei rhoi ar YouTube a chopïwch y cod cyfeirio ac ychwanegu teitl sy'n disgrifio'r fideo'n gywir (efallai y bydd Google am ei mynegeio). Cliciwch y botwm chwarae i wneud yn siŵr bod y cod yn gywir. Dim ond un fideo y cewch ei dangos ar Croeso Cymru. Bydd y fideo yn ymddangos ar eich tudalen rhestrai mewn diweddariad i'r wefan yn y dyfodol.

## 1.6 —Lluniau a fideos

### Canllaw i'r Lluniau

Rydych chi am i ddarpar ymwelwyr ddewis eich busnes a chlicio i weld eich manylion. Ceisiwch feddwl am eich cofnod am eich busnes o safbwynt eich darpar ymwelydd. A fyddech chi'n bwcio llety ar sail geiriau yn unig?

Meddyliwch pa un y byddech chi'n ei ddewis:

a) Yr un â lluniau o safon wael/yr un heb luniau
b) Yr un â llawer o luniau o safon uchel

Mae'r penderfyniad yn un rhwydd ond gofalwch eich bod yn defnyddio'r lluniau gorau sydd gennych a'u bod yn cyfleu'r gwir. Os oes gennych ddigon o arian, beth am ddefnyddio ffotograffydd proffesiynol gan y byddech yn gallu defnyddio'i luniau ar eich gwefan, y cyfryngau cymdeithasol a'ch gweithgarwch marchnata arall.

Os nad oes a bod gennych ffôn clyfar, y peth hawsaf ichi fyddai eu tynnu ar hwnnw a'u llwytho i fyny eich hunan.

**01**

Cymerwch luniau ar adegau gwahanol o'r flwyddyn a newidiwch drefn y lluniau'n rheolaidd fel bod eich cofnod wastad yn edrych yn gyfoes. Er enghraifft, byddai llun o lolfa glyd a thân coed braf yn wych ar gyfer gwyliau'r gaeaf.

**02**

Cadwch bethau'n llachar trwy dynnu lluniau yn ystod y dydd – gadewch y goleuni naturiol i mewn a throwch y goleuadau ymlaen hyd yn oed.

**03**

Dangoswch elfennau sy'n unigryw i'ch busnes e.e. golygfa dda.

**04**

Os ydych chi'n byw ar bwys atyniad da, rhowch ffotos ohono ond gofalwch eich bod yn cael caniatâd ac felly'r hawlfraint i wneud hynny.

## 1.7 —Adran y 'Dolenni Allanol' Cyfryngau Cymdeithasol

Mae dolenni allanol ar gael nawr ichi eu hychwanegu at eich cofnod:

—Facebook

—Instagram

—Twitter

—Pinterest

—YouTube

Y cyfan sydd angen ichi ei wneud yw ychwanegu cyfeiriad cyfryngau cymdeithasol a bydd yn all-gysylltu i'ch cyfrif cyfrwng cymdeithasol.

Mae cadw'ch bys ar byls y cyfryngau cymdeithasol yn hanfodol hefyd er mwyn marchnata'ch hunan a'ch cofnod.

## 1.8 —Doleni bwcio

Gallwch ychwanegu dolenni bwcio at eich cofnod trwy ddewis y sianel bwcio sy'n well gennych. Gallwch ddefnyddio'ch system bwcio'ch hunan neu'r platfform bwcio rydych yn ei ddefnyddio. Defnyddiwch dechnoleg e-fasnachu i drosglwyddo pobl i'ch gwefan neu blatfform bwcio.

Dewiswch yr adran 'dolenni allanol' ac ychwanegu'ch URL bwcio. Os nad oes gennych dudalen bwcio, ychwanegwch gyfeiriad eich gwefan neu dudalen gysylltu.

## 1.9 —Beth sydd i ddod?
### Opsiynau iaith

Cyfieithiadau yn y **Gymraeg** a'r **Almaeneg** os ydych chi am fersiynau wedi'u cyfieithu o'ch cofnod i ymddangos yn rhannau perthnasol y wefan.

- **Disgrifiadau Cymraeg** – byddwn yn cyhoeddi blwch chwilio geiriau allweddol Cymraeg cyn hir. Gallwch nawr gynnwys eich disgrifiadau, lluniau a theitlau Cymraeg. Sgroliwch lawr y dudalen i'r adran 'Disgrifiad Cymraeg' ac ychwanegu'ch manylion yn Gymraeg.
- **Disgrifiadau Almaeneg** – un o'n marchnadoedd allweddol yw'r Almaen. I ychwanegu'ch disgrifiad Almaeneg, logiwch i mewn i'ch cyfrif a phan fyddwch chi'n hapus â'ch disgrifiad, sgroliwch i lawr y dudalen i'r adran 'Disgrifiad Almaeneg' a chliciwch y saeth i gael cyfieithiad awtomatig i'r Almaeneg.

Os oes angen help arnoch i gyfieithu, yna siaradwch â *Helo Blod* fydd yn gallu rhoi cyfieithiadau am ddim ichi o hyd at 500 o eiriau y mis i bob busnes. https://businesswales.gov.wales/heloblod/cy/helo-blod

## 1.10 —Gweld ystadegau'r wefan

Os oes gennych fusnes 'gwarant ansawdd' (Croeso Cymru neu Gynlluniau AA yn unig), byddwch yn cael cofnod yn awtomatig ar visitwales.com.

Bydd y ddewislen ystadegau'n dangos ystadegau misol o sawl gwaith mae pobl wedi bod yn eich cofnod ar wefan Croeso Cymru.

WG53548 / © Hawlfraint y Goron 2026 OGL